



Arwerthiant dydd Gwener a chyfle i ddod
at eich gilydd. Pob bore Gwener am 10 o'r
gloch yn y pafiliwn *Lluniaeth*

Helo. Fy enw i yw Emma Roberts ac rydw i'n gweithio i'r prosiect Lleisiau Lleol yng Nghonwy. Mae'r prosiect yn gweithio gyda chymunedau ar draws Sir Gonwy i glywed yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud.

Yn ystod mis Hydref mi fydda i yn dod o gwmpas Dolwyddelan i siarad â'r trigolion i gael gwybod beth rydych chi'n ei hoffi am fyw yn y pentref, unrhyw atgofion melys, beth hoffech chi weld mwy ohono neu beth hoffech chi ei newid.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am yr hyn rydw i'n ei wneud, neu am sgwrs i rannu'ch syniadau a'ch storïau, yna mae sawl ffordd y gallwch chi gysylltu â fi:

Ffôn: 01248 670852 - **neges destun:** 07462225959

e-bost: emma.roberts@nwaaa.co.uk

Facebook: Emma CVC Roberts - **Twitter:** @EmKathCommunity

Llythyr: Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru,



SINEMA'R PENTREF

Nos Fercher Medi 16eg am 7.00yh

Mae teulu glofaol o Gymru yn wynebu brwydrau bywyd ac yn tystio i ddigwyddiadau cythryblus yn ystod cyfnod o newid cymdeithasol cyflym yng Nghymru ar wawr y 20fed ganrif. Oh! a Maureen O'Hara yn syrthio mewn cariad â'r pregethwr pentref newydd.